# JONES, JOHN ('Ioan Bryngwyn Bach '; 1818 - 1898), gweithiwr, serydd, ac ieithydd

**Enw:** John Jones
**Ffugenw:** Ioan Bryngwyn Bach
**Dyddiad geni:** 1818
**Dyddiad marw:** 1898
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweithiwr, serydd, ac ieithydd
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Ysgolheictod ac Ieithoedd; Gwyddoniaeth a Mathemateg; Y Gofod a Hedfan
**Awdur:** David Thomas

Ganwyd yn Bryngwyn Bach, Dwyran, Môn, 1818. Gwas fferm oedd i ddechrau, a llwytho llechi ym Mhorth Penrhyn oedd ei waith o 1848 ymlaen, ond astudiodd ei hoff bynciau ar hyd ei oes. Yr oedd yn serydd gwych, a gwnaeth ddau sbienddrych iddo'i hun. Galwai plant Bangor ef yn ' John Jones y Sêr.' Dysgodd ieithoedd, a meddai 26 o eiriaduron. Darllenai'r *Beibl* yn Gymraeg, Saesneg, Groeg, a Hebraeg gyda'i gilydd amser brecwast. Ymddiddorodd hefyd mewn cerddoriaeth, ac yr oedd yn fardd. Ymwelodd yr awdur Seisnig, Samuel Smiles, ag ef, ac ysgrifennodd ei hanes. Bu farw ym Mangor yn 1898.

## Awdur

**David Thomas**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau


S. Smiles, *Men of Men of Invention and Industry* (Llundain 1884)

*Y Geninen* (G yl Dewi), 1901, 42-6

*Young Wales a national magazine for Wales*, 1898, 272-4


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Jones

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 16619228

Wikidata: Q6242024


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu